# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Penny Matthews | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd rheolaidd yng nghanolfannau cymunedol Gellifedw a'r Trallwn.

Euthum i gyfarfodydd PACT yn Llansamlet a Gellifedw â PCSOs a swyddogion y ddwy ardal.

Euthum i gyfarfodydd lleol sydd wedi trafod safle teithwyr arall yn y ward ond, oherwydd roeddwn yn aelod o'r grŵp tasg a gorffen gwreiddiol, dywedodd y Tîm Cyfreithiol na ddylwn gymryd rhan mewn trafodaethau.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 12 | 50 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Y cyngor | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 20 | / | 20 | 100 | % |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 0 | / | 3 | 0 | % |
| CYFFREDINOL | 62 | / | 77 | 81 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgor Trwyddedu.
Euthum i gyfarfodydd PACT yn y Trallwn a Gellifedw.
Cefnogais breswylwyr gydag amrywiaeth o faterion o finiau baw cŵn i gefnogi preswylwyr anabl sy'n cael trafferth defnyddio palmentydd.
Rwyf wedi ymdrin â nifer o achosion personol sensitif.
Cefnogais breswylwyr wrth gadw'r amgylchedd yn lân ac yn daclus.
Defnyddiais rywfaint o Lwfans yr Amgylchedd i drefnu gosod biniau graean ar gyfer yr ardaloedd lle roedd eu hangen.
Creais dudalen Facebook 'Newyddion Llafur Llansamlet' a ddefnyddiais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr am faterion lleol.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Arweiniais a threfnais barti ym Mharc Briallu, Llansamlet ar 3 Awst 2013. Roedd y parti'n cynnwys y gwasanaeth tân, yr heddlu, Cymunedau'n Gyntaf, sibrydwr cŵn, dwy babell fawr gyda'r gymdeithas hanesyddol, stondin gemwaith, stondin teisennau a siop fwyd. Roedd gemau i'r plant a gymerodd ran mewn tynnu rhaff a chafwyd llawer o sbort a sbri. Yn garedig, ymunodd yr enwogyn lleol, Kevin John, â ni a threfnodd gemau gyda'r plant.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Rwy'n dda wrth gyd-drafod gan fy mod wedi bod yn gynrychiolydd undeb llafur i'r Gwasanaeth Sifil. Rwy'n mwynhau'r rôl ar y Pwyllgor Trwyddedu am ei bod yn cynnwys cynifer o agweddau ar drwyddedu yn y ddinas a'r sir. Rydym yn cynnwys pob agwedd - o drwyddedu tacsis i HMOs ac o fasnachu ar y stryd i gamblo a sefydliadau rhyw.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n gweithio ar agor clwb cinio ac anogaf bobl i gysylltu â fi os oes diddordeb ganddynt.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £21,910 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 29.05.14 |
|---|---|